Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru

**Trwy e-bost**

**Cyfeirnod:** 3658A2023/AC371
**Dyddiad cyhoeddi:** 17 Gorffennaf 2023

Annwyl Gydweithwyr

## Sylwebaeth ar gynnydd Cydbwyllgorau Corfforedig – Cydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru

Yn dilyn fy adroddiad cryno diweddar ar gynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig o ran datblygu eu trefniadau, mae'r llythyr hwn yn nodi'r canfyddiadau sy'n berthnasol i Gydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru. Mae wedi'i strwythuro'n seiliedig ar y meysydd canlynol fel yr oedd yr adroddiad cryno:

- y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig
- trefniadau llywodraethu esblygol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i gyrraedd nodau Llywodraeth Cymru a chyflawni ei rwymedigaethau statudol.
- y berthynas rhwng y Cydbwyllgor Corfforedig a threfniadau partneriaeth presennol.
- cynlluniau'r Cydbwyllgor Corfforedig i ateb ei ofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys pennu ei amcanion llesiant.

Bydd fy nhîm yn hapus i ddod i un o gyfarfodydd y Cydbwyllgor Corfforedig i drafod y canfyddiadau.

## Y ddealltwriaeth am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig

- Roedd gan Gydbwyllgor Corfforedig De Orllewin Cymru ddealltwriaeth glir am nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cydbwyllgorau Corfforedig, er ei bod hi'n amlwg nad oedd yn llwyr gefnogol i'r angen am y Cydbwyllgorau Corfforedig. Rwy'n deall bod hyn, yn rhannol, yn gysylltiedig â phryderon y Cydbwyllgor Corfforedig ynghylch diffyg adnoddau i gefnogi gwaith i roi'r Cydbwyllgor Corfforedig a'i swyddogaethau ar waith. Fe gododd y pryderon hyn mewn modd rhagweithiol gyda Llywodraeth Cymru.
- Serch hynny, roedd y Cydbwyllgor Corfforedig yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â'r cyfleoedd y gallai'r Cydbwyllgorau Corfforedig eu dwyn i'r rhanbarth gan gynnwys y tu hwnt i'w swyddogaethau craidd. Yn fwyaf nodedig, trwy fabwysiadu strategaeth ynni rhanbarthol De Orllewin Cymru a'r cynllun cyflawni economaidd rhanbarthol.

## Trefniadau llywodraethu

- **Ar y cyfan, rydym wedi ein sicrhau bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi sefydlu ei drefniadau llywodraethu craidd a bod y rhan fwyaf o'i drefniadau ar waith.**
- Mae hyn yn cynnwys ei brif Gydbwyllgor Corfforedig, ei is-bwyllgor trosolwg a chraffu a'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar y cylchoedd gorchwyl ar gyfer pedwar is-bwyllgor thematig (trafnidiaeth ranbarthol, datblygu economaidd rhanbarthol, cynllunio datblygu strategol, a'r strategaeth ynni rhanbarthol). Ond, o ran y sefyllfa ym mis Mai 2023, nid oedd yr is-bwyllgorau hyn wedi cwrdd eto ac felly nid oeddent wedi dechrau cyflawni eu rolau yn unol â'u cylchoedd gorchwyl. Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mis Mehefin.
- Mae'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi cytuno ar ei raglen waith lefel-uchel. Rydym yn deall bod yr aelodau'n canolbwyntio'n bennaf ar ymgyfarwyddo â'r Cydbwyllgor Corfforedig ar hyn o bryd. Wrth i waith y Cydbwyllgor Corfforedig ddatblygu, mae angen i'r is-bwyllgor ystyried gwerth ei weithgarwch a'r effaith y bydd yn ei chael, y tu hwnt i nodi cynnydd gyda chynlluniau yn unig, i ddarparu mecanwaith i ddwyn y Cydbwyllgor Corfforedig i gyfrif. Efallai y byddai ein papur ar graffu o gymorth i'r is-bwyllgor.

- Mae’r Cydbwyllgor Corfforedig wedi mabwysiadu dull cymesur a phragmatig lle mae ei drefniadau llywodraethu yn y cwestiwn. Mae wedi cynyddu i’r eithaf yr hyblygrwydd i deilwra’i drefniadau, er enghraifft trwy ddefnyddio rhai o drefniadau ei gyrff cyfansoddol a swyddogion statudol sydd ar secondiad o gynghorau cyfansoddol ar sail ran-amser.
- Mae’n beth cadarnhaol bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi achub ar y cyfle i gynnwys Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol (APCau) yn fwy llawn yn ei drefniadau, y tu hwnt i rôl statudol yr APCau o ran cynllunio datblygu strategol. Yn ogystal â sicrhau ei fod yn ystyried effaith ei gamau gweithredu ar ardaloedd awdurdodau’r parciau cenedlaethol, bydd hyn hefyd yn helpu’r Cydbwyllgor Corfforedig i gynyddu i’r eithaf y cyfraniad cadarnhaol y gallai APCau ei wneud at gyflawni amcanion llesiant a swyddogaethau’r Cydbwyllgor Corfforedig.
- Byddwn yn awyddus i weld sut y mae trefniadau llywodraethu’r Cydbwyllgor Corfforedig yn cefnogi’r Cydbwyllgor Corfforedig wrth iddo barhau i ddatblygu.

**Cynnydd ac eglurder cynlluniau**

- **Canfuom fod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi disgrifio gweledigaeth glir yn ei gynllun corfforaethol 2023-28, a oedd yn tynnu ar ei gynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, ei strategaeth ynni rhanbarthol a pholisïau cenedlaethol.**
- Mae’r Cydbwyllgor Corfforedig yn symud ymlaen gyda’i gynlluniau i gyflawni ei ddyletswydd llesiant economaidd, gan adeiladu ar waith Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Ar hyn o bryd, nid yw’r Cydbwyllgor Corfforedig yn bwriadu dod â’r ddau drefniant rhanbarthol ynghyd, o ystyried y ffrydiau cyllido a seiliau cyfreithiol gwahanol. Bydd rheoli a goruchwylio dau drefniant rhanbarthol, y mae eu hamcanion yn debyg ac yn fuddiol i’w gilydd, yn galw am adnoddau. Bydd angen i’r Cydbwyllgor Corfforedig a chyrff cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe benderfynu sut y gall wneud hyn yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae swyddogion wrthi ar hyn o bryd yn archwilio opsiynau i leihau i’r eithaf faich gweinyddol a chostau cysylltiedig gweithredu’r ddau drefniant.
- **Fodd bynnag, roedd cynnydd gyda chyflawni ei swyddogaethau cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth yn rhanbarthol yn fwy cyfyngedig.** Rydym yn deall bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn teimlo mai’r prif reswm dros hyn yw pryderon ynghylch argaeledd adnoddau a bod Llywodraeth Cymru heb gyhoeddi canllawiau terfynol eto. Rwyf wedi codi nifer o bwyntiau ynglŷn â pharodrwydd Llywodraeth Cymru yn fy adroddiad cryno ac rwy’n cydnabod bod y materion o ran statws ariannol yn arbennig wedi effeithio ar allu’r Cydbwyllgor Corfforedig i wneud cynnydd, gan nad oedd am ysgwyddo TAW er enghraifft.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r Cydbwyllgorau Corfforedig ynghylch y swyddogaethau datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth felly dylai fod gan y Cydbwyllgorau Corfforedig beth dealltwriaeth am y disgwyliadau. Er enghraifft, fe rannodd hysbysiadau cynghori a oedd yn argymell paratoi'n gynnar ar gyfer y cynlluniau datblygu strategol ym mis Awst 2021. Cynhaliwyd digwyddiad hefyd i drafod swyddogaethau cynllunio'r Cydbwyllgorau Corfforedig ym mis Ionawr 2022. Felly, er gwaethaf y materion o ran statws ariannol, rwyf fi o'r farn y gallai mwy o gynnydd fod wedi cael ei wneud yn y meysydd hyn. Byddwn yn disgwyl gweld mwy o gynnydd a hwnnw'n gynnydd cyflymach o hyn ymlaen.
- Er bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi cytuno ar gyllideb i gefnogi ei swyddogaeth trafnidiaeth ranbarthol dim ond cyllideb fach iawn y mae wedi'i phennu ar gyfer cynllunio datblygu strategol yn 2023-24. Mae hyn yn tanlinellu ei bod yn annhebygol y bydd rhyw lawer o weithgarwch yn hyn o beth. Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro wrth y rhanbarthau ei bod yn barod i roi cymorth i ddatblygu'r cynlluniau, yn uniongyrchol a thrwy Trafnidiaeth Cymru.
- Mae'r broses Cynllunio Datblygu Strategol, yn arbennig, yn gymhleth ac yn faith ac mae angen i'r Cydbwyllgor Corfforedig roi hon ar waith. Ceir risg na fydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn gallu cyflawni ei amcanion a gwelliannau ar gyfer y rhanbarth os na ddyrennir cyllidebau realistig i roi cymorth i gyflawni ei swyddogaethau. Mae angen iddo benderfynu sut y gall gynyddu ei alluoedd i'r eithaf fel endid cyfreithiol ar wahân i'w helpu i wneud hyn.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi gwneud cynnydd o ran gweithio i ymdrin â'i ddyletswyddau fel corff yn y sector cyhoeddus, megis ei ddyletswyddau bioamrywiaeth a chydraddoldeb, a gofynion o ran y Gymraeg. Er bod y Cydbwyllgor Corfforedig yn cydnabod y gofyniad i gynhyrchu strategaeth Tlodi Plant yn ei Gynllun Corfforaethol, o ran y sefyllfa ym mis Mai 2023 nid oedd wedi datblygu ei gynllun gweithredu ar dlodi plant fel oedd yn ofynnol. Bydd angen iddo wneud hynny cyn gynted â phosibl.

**Partneriaethau**

- Rwyf wedi gwneud sylwadau'n fynych ar y dirwedd gymhleth o ran partneriaethau yng Nghymru felly rwyf yn awyddus i weld sut y mae Cydbwyllgorau Corfforedig yn archwilio'u perthynas â phartneriaethau presennol a sut y maent yn gweithio gyda hwy i wneud y gorau o'r adnoddau presennol ac i fynd i'r afael â heriau mewn modd mwy cydweithredol.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi bod yn glir ynghylch ei awydd i adeiladu ar y perthnasoedd presennol yn y rhanbarth. Mae'n beth cadarnhaol gweld ei fod wedi edrych y tu hwnt i aelodaeth statudol y Cydbwyllgor Corfforedig gan gyfethol cynrychiolwyr o Brifysgol Abertawe a Phrifysgol De Cymru, a byrddau iechyd prifysgol Hywel Dda a Bae Abertawe. Mae hefyd yn adeiladu ar arbenigedd bargen ddinesig Bae Abertawe. Dylai hyn roi cyfle sylweddol

iddo hybu grym cydweithredol y rhanbarth a chreu perchnogaeth ehangach i gyflawni ei flaenoriaethau. Byddaf yn awyddus i weld effaith hyn wrth i'r Cydbwyllgor Corfforedig fynd rhagddo.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf LlCD)**

- Fel y cyrff eraill a enwir yn Neddf LlCD, rhaid i'r Cydbwyllgor Corfforedig bennu a chyhoeddi amcanion llesiant. Rhaid iddo weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu'r amcanion hynny ac wrth gymryd camau i'w cyflawni.
- Fe gyhoeddodd y Cydbwyllgor Corfforedig ei amcanion llesiant erbyn 1 Ebrill 2023 fel oedd yn ofynnol. Fe ymgorfforodd y rhain yn ei gynllun corfforaethol fel a argymhellir yn y canllawiau statudol.
- Nid ydym wedi cynnal adolygiad manwl i ganfod i ba raddau y mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant. Dywedodd y Cydbwyllgor Corfforedig wrthym ei fod yn defnyddio dull cymesur o gyflawni ei ddyletswyddau dan y Ddeddf.
- Gallwn weld bod y Cydbwyllgor Corfforedig wedi nodi yn ei gynllun corfforaethol sut y mae'n bwriadu gwreiddio'r pum ffordd o weithio. O'n hadolygiad lefel uchel ni o'r ddogfen, gallwn weld bod y cynllun corfforaethol yn cwmpasu elfennau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi nodi sut y bydd ei amcanion llesiant yn helpu i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant cenedlaethol.
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun corfforaethol, gan gynnwys dull wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth. Datblygodd y Cydbwyllgor Corfforedig fersiwn hawdd i'w darllen o'r cynllun a chrynodeb o'r cynllun ar un dudalen i'w wneud yn haws i'w gyrchu a'i ddeall. Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi adnabod rhai ffyrdd y gallai gryfhau'r modd y mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er enghraifft, trwy ddatblygu strategaeth gyfranogi ac adeiladu ar y dulliau a ddefnyddir gan ei gyrff cyfansoddol i'w helpu i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth. Mae hefyd yn siarad am yr angen i weithio mewn ffordd integredig.
- Mae'r Cydbwyllgor Corfforedig wedi mabwysiadu offeryn asesu effaith Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i'w helpu i ddangos ei fod wedi ystyried y nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio. Rwy'n derbyn y gall yr offer hyn fod o gymorth. Ond mae angen iddo fod yn fwy na dim ond cynnwys asesiad effaith ar ddiwedd adroddiad. Fe wnaeth fy adroddiad diweddar ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb danlinellu'r pwynt ynglŷn ag ystyried y meysydd hyn yn gynharach i helpu i oleuo penderfyniadau a pholisïau.
- Mae dyletswydd ar y Cydbwyllgor Corfforedig i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn fwy eang, mae'r fframwaith hwnnw'n cynnig y potensial i ychwanegu gwerth at y modd y mae'n cynllunio ac yn cyflawni ei waith. Er enghraifft, manteision ehangach cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth arfer ei swyddogaethau a phwerau trafnidiaeth,

cynllunio a datblygu economaidd. Gallai'r Cydbwyllgor Corfforedig ei chael yn ddefnyddiol defnyddio'r ystod o adnoddau ar drafnidiaeth a chynllunio sydd ar gael ar wefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

- Byddaf yn disgwyl gweld y Cydbwyllgor Corfforedig yn cymhwyso'r egwyddor hon mewn ffordd ystyrlon, ar draws ei swyddogaethau. Byddaf yn cynnal archwiliadau i ganfod i ba raddau y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn blynyddoedd yn y dyfodol, fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf.
- Rydym wedi datblygu rhai dangosyddion cadarnhaol sy'n darparu set enghreifftiol o nodweddion i ddangos sut y mae da yn edrych pan fo sefydliadau'n gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y cyrff cyfansoddol yn gyfarwydd â'r rhain. Efallai y bydd y Cydbwyllgor Corfforedig yn cael ei bod o gymorth defnyddio'r rhain wrth iddo gyflawni ei amcanion llesiant.

Dylai'r Cydbwyllgor Corfforedig ystyried y llythyr hwn ar y cyd â'm hadroddiad cryno, sy'n darparu asesiad o sefyllfa gyfunol y pedwar Cydbwyllgor Corfforedig.

Rwy'n bwriadu gwneud gwaith pellach dros y 18-24 mis nesaf i asesu cynnydd y Cydbwyllgorau Corfforedig.

Diolch am eich cymorth a'ch cyfraniadau i'r adolygiad hwn

Yn gywir



**Adrian Crompton**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**